

Cofnodion / Minutes — Cyfarfod y Cyngor / Council Meeting — 8 Mawrth 2023 / 8 March 2023

CYNGOR CYMUNED LLANSANNAN, COFNODION CYFARFAOD GYNHALIWIYD YN NGHANOLFAN ADDYSG BRO ALED LLANSANNAN NOS FERCHER 8fed MAWRTH, 2023 AM 7-30yh

Presennol: Cynghorwyr: Meurig Davies (Cadeirydd) Trefor Roberts, Berwyn Evans, Delyth Williams. Elwyn Jones, Bethan Jones, Eifion M Jones.

Aelodau o'r Cyhoedd: Cynghorydd Sirol, Trystan Lewis, Emrys Williams, (Clerc)

Hysbysiad o Gyfethol: Enwebwyd David T Morris trwy'r broses gyfethol i lenwi'r sedd wag yn Ward Bylchau. Cynnigwyd David Morris gan y Cyng Eifion M Jones ac eilwyd y cynnig yn briodol gan y Cyng Delyth Williams.

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Tammi Owen.

2. Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol. Cyng Eifion M Jones, 11, Grantiau 11.2

Cyng Delyth Williams, 8, Cyllid. 8.3. 11. Grantiau, 11.1, 11.2. 9, Ceisiadau Cynllunio, 9.1. Cyng Sir Trystan Lewis 11.2

3. Cadarnhau cofnodion. Cyfarfod Y Cyngor gynhaliwyd 8fed Chwefror 2023. Penderfynwyd, Cymeradwyo a llofnodi fod cofnodion cyfarfod 8fed Chwefror 2023 yn gofnod cywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

4.1 12.1(8/02/23) Unrhyw fater ddygwyd i sylw'r clerc. Cadarnhad gan y Cyng EM Jones ei fod wedi trefnu gyda Einion Dafydd ynghylch gwaith yn y gymuned ar gyfer Gwobr Efydd Dug Caeredin.

4.2 Parcio o flaen Llain Hiraethog. Derbyniwyd adroddiad gan lygad-dystion ynghylch y sefyllfa ar foreau yn ystod yr wythnos. Penderfynwyd: Cysylltu gyda'r adran berthnasol yn CBS Conwy i awgrymu fod swyddogion yn ymweld a'r safle rhwng 7-45 ag 8-15 y bore pan mae'r sefyllfa yn ymddangos ar ei gwaethaf.

4.3 Arwyddion 'Radar' Penderfynwyd gyrru'n mlaen i gael arwyddion Yn Llansannan ac hefyd yn y Groes. Y clerc i gysylltu gyda Haf Jones i geisio gwybodaeth ynghylch dyddiau agor cronfeudd Brenig a Clocaenog

5. Adroddiad misol y Cynghorydd Sir: Derbyniwyd crynhodeb o gyfarfodydd a gweithgareddau a fynychwyd yn ystod y mis diwethaf.

6. Gohebiaeth. Aelodaeth Un Llais Cymru 2023-4 (8.11 Un Llais Cymru, Tâl Aelodaeth: £228 Yn seiliedig ar 587 o anheddau trethadwy yn Ôl £0.390p yr annedd. (Yn seiliedig ar Restr Brisio, nid Cofrestr Etholiadol)

7. Cyfle i'r Cyhoedd annerch Y Cyngor. Ni fynychwyd y Cyfarfod gan unrhyw aelod o'r cyhoedd.

8. Cyllid.

Balans Banc, 28-02-2023. Cyfrif y Dreth £9,894.58

Cyfrif H G Owen..£13,926.00

Cyfanswm £23,820.58

Taliadau. 8.1 DD BG Business, Trydan, Swyddfa Post, Llansannan.(08/12/22-07/01/23) £49.49

8.2 ET Williams, Ad-daliad cyflog-salary reimbursement. (Agenda 07/12/22) 200608

£183.60

8.3 E T Williams, Clerc, costau 30/09/22 – 31/12/2022 200606 £94.75

8.4 E T Williams, Clerc, cyflog, 01/10 -31/12/22. 200607 £1,441.80

8.5 HSBC. Costau Banc,(Cyfrif y Dreth/Community Council Accounts) to 19/02/23 £13.00

8.6 HSBC.Costau Banc, (Cyfri HG Owen Accounts) to 19/02/23 £8.00

8.7 Cymdeithas Cymuned Ieuenctid Bro Aled (Canolfan Addysg Bro Aled) 200612 £250.00

8.8 Eglwys St Sannan.200602 £500.00

8.9 SO. T T & B Williams, Rhent Swyddfa Bost. ...£238.33

Derbyniadau 8.10. 03-02-23 Gadlas (01/07/22 – 31/12/22) ...£360.00

Taliadau a Gymeradwywyd.

8.11 Un Llais Cymru, Tâl Aelodaeth: £228 Yn seiliedig ar 587 o anheddau trethadwy yn Ôl £0.390p yr annedd. (Yn seiliedig ar Restr Brisio, nid Cofrestr Etholiadol) Penderfynwyd: I'w gynnwys ar agenda 12fed Ebrill 2023

8.12 Arfon Wynne, Gwaith yn y Gymuned £545.38

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo fod y ffigyrau uchod yn gywir 8.13 Sieciau heb eu cyflwyno / Unpresented cheques. 200587... £500.00. 200611 £61.04

Taliadau 01/04/22 –28 /02/23....£26,471.55 Derbyniadau 01/04/22- 28/02/23....£25,093.44

9.Rhybydd o Geisiadau am Ganiatad Cynllunio.

9.1 9.1 22-02-23. Cyfeirnod: 0/50512 Ymgeisydd: Mr Guto Davies Dwyrain: Gogledd: Cynllun: Codi Adeilad Amaethyddol (Cymeradwyaeth Amaethyddol Ymlaen Llaw) Safle: Hendre Llan LLansannan Conwy LL16 5HN Sylwadau, 15-03-2023 Penderfynwyd, Dim gwrthwynebiad i'r cais. Yn ychwanegol, fod Cyngor Cymuned Llansannan yn gefnogol i'r cais

10. Gohebiaeth 10.1 Cyng Berwyn Evans: ebost ynghylch 'Pentref Taclusaf' Penderfynwyd cyfarfod ar y sgwar yn Llansannan am 2.00 o gloch y prynhawn ar Ebrill 2ail i wneud arolwg o'r pentref.

11 Grantiau.

11.1 Cais am ad- daliad o £518.16 am wisgoedd i Eisteddfod yr Urdd 2022. Penderfynwyd cymeradwyo ad-daliad o £500.00 i goffrau mudiad yr Urdd cangen Llansannan.

11.2 Dangosiad banc ynghyd a chais am gyfraniad ariannol tuag at gynnal Eisteddfod Bro Aled 2023. Penderfynwyd cymeradwyo grant o £500.00

11.3 Cais gan Bwyllgor Eisteddfod Bro Aled i'r Cyngor Cymuned ofalu am flodau ar gyfer y llwyfan ar ddiwrnod y 'Steddfod. Penderfynwyd cynnwys ar agenda cyfarfod 12fed Ebrill.

12 Unrhyw fater ddygwyd i sylw'r clerc.

12.1 Ceisiadau am waith torri glaswellt yn Fynwent Y Plwyf yn Llansannan, Gwaith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus y plwyf a chynnal a chadw Coed Maes Aled Llansannan ar gyfer y ddwy flynedd yn dechrau o 01/04/2023 hyd at 31/03/2025. Derbyniwyd un tendar am y gwaith uchod. Penderfynwyd, yn unfrydol i benodi Arfon Wynne, Pentre Beidiog Llansannan i wneud y gwaith uchod.

12.2 02/03/23 Ebost Cyng Trystan Lewis Mae angen i ni gael rhaglen waith o ran twtio a thacluso a phlannu blodau

12.3 Cyng EM Jones. Mae Mr Andrew Gill sy'n byw yn Rhif 9 Ffordd Gogog wedi gofyn i mi os basai'n cael trwsio y blychau blodau sy o amgylch cof golofn Y Ferch Fach. Syniad gwyh oedd fy ateb! Mae wedi mynd cam pellach ac wedi plannu blodau ynddynt i gyd ac mae'n edrych yn wych. Daeth a'r bil i mi sef £36.93. Ydy posib cynwys hwn ar Agenda nesaf i'w dalu? Dwi'n meddwl ei fod yn mynd i blannu mwy o flodau o amgylch y pentref yn y dyfodol hefyd

Penderfynwyd: Cymeradwyo siec o £36.93.

13. Materion yr Archwilydd Mewnol ac Allanol. Dim ychwanegiad.

14 Materion CBS Conwy.

15. Materion Llywodraeth Cymru a San Steffan

16. Ystyriwyd y materion canlynol.

16.1 Adolygwyd a mabwysiadwyd Y Rheoliadau Sefydlog.

16.2 Adolygwyd a mabwysiadwyd Y Rheoliadau Ariannol.

16.3 Adolygwyd a mabwysiadwyd Y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig a hawliau pleidleisio.

16.4 Adolygwyd a mabwysiadwyd Y Gofrestr Asesiad Risc.

16.5 Adolygwyd a mabwysiadwyd Y Gofrestr Asedau.

17. Cadarnhau dyddiad Cyfarfod nesaf Y Cyngor, 12fed Ebril, 2023 yn Neuadd Goffa Plwyf Y Bylchau, Groes.

CYNGOR CYMUNED LLANSANNAN COMMUNITY COUNCIL.

MINUTES OF MEETING HELD AT CANOLFAN ADDYSG BRO ALED, ON WEDNESDAY 8th MARCH, 2023
AT 7.30pm

Present: Cllrs, Meurig Davies (Chair) Trefor Roberts, Berwyn Evans, Delyth Williams. Elwyn Jones, Bethan Jones, Eifion M Jones. Members of the public; County Cllr Trystan Lewis, Emrys Williams, (Clerk)

Notice of Co-option: David T Morris was duly proposed by Cllr Eifion M Jones and seconded by Cllr Delyth Williams for the vacant seat in Bylchau Ward.

1. Apologies: Cllr Tammi Owen.

2. Declarations of Interest Code of Local Government Conduct: Cllr Eifion M Jones, 11, Grants 11.2

Cllr Delyth Williams, 8. Finance, 8.3 11. Grants, 11.1, 11.2. 9. Planning Applications, 9.1. Cyng Sir Trystan Lewis 11.2

3. Confirm minutes of the Council's 8th February meeting. RESOLVED: Minutes held on the 8th February meeting be approved and signed as a correct record.

4. Matters arising from the minutes. 4.1 (12.1 08/02/23) Cllr EM Jones confirmed that he'd arranged voluntary work in the community for Einion Dafydd in relation to Duke of Edinburgh award.

4.2 Parking adjacent to Llain Hiraethog. Eye witness account received in relation to the situation during workday mornings. Resolved: To contact relevant departments at Conwy CBC and suggest that officers visit the site in question at the hours of 7-45 and 8-15 in the morning when the problem seems to be at it's worse.

4.3 Radar speed signs. Resolved: To proceed with the intention to have the signs for Llansannan and Groes. Clerk to contact Conwy CBC regarding opening dates for Brenig and Clocaenog funding grants.

5. County Councillor's monthly report: County Cllr T Lewis presented a synopsis of events he has attended during the past month.

6. Correspondence.

7. Public's opportunity to present statements. No members of the public were present at the meeting

.

8. Finance. Statements of Bank Accounts, 28/02/2023. Community Council Accounts £9,894.58

HG Owen Accounts £13,926.00

Total £23,820.58

Payments. 8.1 DD BG Business, Electricity Post Office. (08/12/22-07/01/23) £49.49

8.2 ET Williams, Salary reimbursement. (Agenda 07/12/22) 200608 £183.60

8.3 E T Williams, Clerk's expenses 30/09/22 – 31/12/2022 200606 £94.75

8.4 E T Williams, Clerk's, salary, 01/10 /22 - 31/12/22. 200607 £1,441.80

8.5 HSBC, Bank Charges (Community Council Accounts) to 19/02/23.£13.00

8.6 HSBC, Bank Charges (HG Owen Accounts) to 19/02/23.£8.00

8.7 Cymdeithas Cymuned Ieuenctid Bro Aled (Canolfan Addysg Bro Aled) 200612 £250.00

8.8 St Sannan Church. 200602 £500.00

8.9 SO. T T & B Williams, Post Office Rent £238.33

Receipts: 8.10. 03/02/23 Gadlas (01/07/22 – 31/12/22) ...£360.00.

Payments approved.

8.11 One Voice Wales, Membership Fee: £228 Based on 587 chargeable dwellings @ £0.390p per dwelling (Based on Valuation List, not Electoral Register) Resolved: to be included in 12th April 2023 agenda.

8.12 Arfon Wynne, Work in the community...£545.38

8.13 Unpresented cheques. 200587 £500.00. 200611 £61.04

RESOLVED: That all payments are correct.

Payments; 01/04/22 –28 /02/23.....£26,471.55 Receipts; 01/04/22- 28/02/23....£25,093.44

9. Notice of application for Planning Permission.

9.1 22-02-23. Reference: 0/50512 Applicant: Mr Guto Davies Easting: Northing: Proposal: Erection of Agricultural Building (Agricultural Prior Approval) Location: Hendre Llan, LLansannan, Conwy, LL16 5HN Representations, 15-03-2023 Resolved: No objections, Also, that the Community Council support the application.

10. Correspondence.

10.1 Cllr Berwyn Evans: email re-'Tidiest Village' Resolved: That cllrs meet at Llansannan square on Sunday 2nd of April.

11. Grants

11.1 Request for reimbursement of £518.16 for competition costumes for Urdd Eisteddfod 2022 Resolved: To contribute £500.00 to Llansannan Urdd branch.

11.2 Present Bank balance statement and request for financial support for Eisteddfod Bro Aled 2023. Resolved: To contribute £500.00

11.3 Request from Eisteddfod Bro Aled committee for the Community Council to contribute towards floral arrangement for the stage on the eisteddfod day. Resolved: To be included in 12th April agenda.

12. Any issues presented to the clerk.

12.1 Tenders for mowing Parish Cemetery, Llansannan and maintenance of the parish public footpaths, maintenance of Coed Maes Aled for 01/04/2023 to 31/03/2025 period. One tender presented for the said work. Resolved: Decided unanimously to accept the tender of Arfon Wynne Pentre Beidiog, Llansannan.

12.2 02/03/23, County Cllr Trystan Lewis. The need for a work programme re-planting plants and tidying Llansannan village.

12.3 Cllr EM Jones: Mr Andrew Gill, 9 Ffordd Gogor asking if he can repair planters around the village and plant flowers near the two monuments. Resolved: To reimburse the sum of £36.93 for purchased plants.

13. Internal and External Audit Matters. No additional information forwarded.

14 Conwy CBC Matters.

15. Welsh Government and UK Parliament matters.

16. To review following matters. 16.1 Standing Orders reviewed and adopted.

16.2 Financial Regulations reviewed and adopted.

16.3 Model Code of Conduct for members and Co-opted Members with voting rights reviewed and adopted

16.4 Risk Assessment Schedule reviewed and adopted

16.5 Asset Register reviewed and adopted

17. Confirm date of next Council: 12th April, 2023

Archive copy of a page from the council's previous website (llansannan.org), republished here. Personal contact details have been removed. / Copi archif o dudalen o hen wefan y cyngor (llansannan.org). Tynnwyd manylion cyswllt personol.